

Eglwys Sant Gwyddelan

Gan fwrw golwg ar y flwyddyn flaenorol, bu gwasanaethau'r eglwys yn parhau i fod ar-lein ar gychwyn 2021 a bu i Kristine Jenkins awgrymu bore Coffi dros Zoom unwaith yr wythnos er mwyn i bawb gadw mewn cysylltiad. Gyda'r Pasg ar ddyfod, bu i'r eglwys ei hun atgyfodi wedi cyfnod o aeafgysgu gyda gweddi breifat yn Sant Gwyddelan ar ddydd Mercher. Ar ddydd Sul y Blodau bu i'r Parchedig Simon Freeman roi gwen ar ein hwynebau gyda'i newyddion bendigedig y byddai ef a Belinda yn priodi ym mis Ebrill. Bu inni ffarwelio gyda Simon a dymuno'r gorau oll iddo yn ei fywyd priodasol a'i blwyf newydd yn esgobaeth Llandaf gyda gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Betws-y-coed a chan ymgynnull ar y glaswellt y tu allan yn dilyn hynny.

Bu inni barhau i gynnal gwasanaethau ar sawl ddydd Sul pob mis am weddill y flwyddyn, gyda diolch i'r Parchedig Stuart Elliott, Keith Wadcock, Sue Welsh a Huw Thomas. Bu'r rhain ar y cyd â Gwasanaethau Unedig ac Eglwys y Goedwig ym Metws y Coed. Mae'r eglwys ar agor ar ddydd Sul a dydd Mercher erbyn hyn ar gyfer Gweddi Breifat. Ar Fedi'r 5^{ed} bu inni gynnal Bedydd bendigedig; dau o blant dymunol o Fryn Tirion. Bu inni gynnal ein Gŵyl Ddiolchgarwch ar gychwyn Hydref. Er ein bod ni wedi ein cyngori i barhau i gadw pellter cymdeithasol, dydy hyn ddim yn orfodol erbyn hyn felly roedd yn braf gweld cynulleidfa fwy a mynd ati i GANU nerth ein pen unwaith eto! Spar ydy'r prif fan casglu ar gyfer eitemau'r Banc Bwyd ond roedden ni wrth ein bodd o dderbyn cyfraniadau yn yr eglwys y diwrnod hwnnw.

Bu inni ddathlu Sul y Beibl ar Fedi'r 24^{ain} gydag amryw wasanaethau yn yr ardal. Bu i Stuart drefnu taith gerdded o Benmachno i Dŷ Mawr gan fwynhau te prynhawn ym Mhlas Penaeldroch ar y ffordd a dirwyn y daith i ben gyda Hwylol Weddi yn Nolwyddelan lle bu pawb yn bloeddio canu!

Edrych tua'r dyfodol. O'r Dyfodiad hyd at y Nadolig eleni, rydym yn dod i ddiwedd y flwyddyn gyntaf gan ddilyn patrwm newydd o wasanaethau yn seiliedig ar y pedair gŵyl solar a'r pedair gwledd fugeiliol rhyngddyn nhw. Bu inni ddathlu pob un o'r rhain drwy lunio taflen, 'Drwy'r flwyddyn' (maen nhw ar gael ar ein gwefan erbyn hyn www.brogwydyr.cymru). Mae copïau ar bapur ar gael ym mhorth yr eglwys. Mae'r daflen ddiweddaraf ar gyfer Heulsafiad y Gaeaf, Alban Arthan, yn ein hatgoffa o bwysigrwydd gaeafu ein hunain ar y cyd â'r byd naturiol er mwyn paratoi ar gyfer y goleuni sy'n dychwelyd yn y flwyddyn newydd. Caiff hyn ei adlewyrchu'n hyfryd gyda geni'r Iesu gaiff ei ddathlu yn ystod y Nadolig. Iesu ydy'r 'goleuni i'r byd'. Yn y flwyddyn nesaf, bydd yr eglwys yn canolbwyntio ar Efengyl Luc sy'n atblygu'r